



# Sgiliau'r dyfodol

Ymgynghoriad ar y  
Dystysgrif Her Sgiliau Uwch  
a Bagloriaeth Cymru Uwch



## Sgiliau'r Dyfodol:

# Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Cymru

### Cynnwys

<b>Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr</b>		
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
	<b>Ein rôl</b>	<b>3</b>
	<b>Cipolwg ar y cynigion</b>	<b>3</b>
	<b>Cefndir</b>	<b>6</b>
	<b>Cwmpas yr ymgynghoriad</b>	<b>7</b>
	<b>Sut i ymateb</b>	<b>8</b>
<b>2</b>	<b>Ein cynigion</b>	<b>9</b>
	<b>Adran A: Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch</b>	<b>9</b>
	<b>Adran B: Cymhwyster newydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch</b>	<b>12</b>
<b>3</b>	<b>Rhagolwg / gwneud penderfyniadau yn y dyfodol</b>	<b>29</b>
<b>4</b>	<b>Asesiad Effaith Integredig</b>	<b>30</b>
<b>5</b>	<b>Y camau nesaf</b>	<b>39</b>

## Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi cynigion ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Wrth wneud hynny, rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn y cymhwyster presennol, gan gynnwys ei lwyddiant yn helpu dysgwyr i gael mynediad i addysg uwch.

Nod ein cynigion yw: gwella hydrinedd i ddysgwyr a chanolfannau; gwella ymgysylltiad a lles dysgwyr; osgoi dyblygu dysgu blaenorol; a darparu model symlach sy'n helpu i gyfleu gwerth, diben a strwythur y cymhwyster yn fwy eglur.

Rydym wedi nodi ffocws clir ar gyfer y cymhwyster newydd: i baratoi dysgwyr ar gyfer dyfodol llwyddiannus fel dinasyddion gweithgar a all gyfrannu'n hyderus at Gymru gynaliadwy a'r byd. Mae'r pwrpas hwn yn cyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd ac yn adlewyrchu datblygiadau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud y cymhwyster hwn yn brofiad dysgu unigryw i ddysgwyr. Rydym am i ddysgwyr gael ymreolaeth a dewis o ran yr hyn y maen nhw'n ei astudio ac i ddatblygu eu sgiliau drwy brofiadau dysgu dilys, go iawn.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau adolygiadau blaenorol a'r farn a fynegwyd i ni gan amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi rhannu eu harbenigedd a'u profiadau. Mae hyn yn dangos yr ymroddiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i barhau i fod â chymhwyster penodol i Gymru sy'n seiliedig ar sgiliau ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr Cymru.

Rydym yn croesawu eich barn ac yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi eich ymatebion a'n cyngor i Weinidogion Cymru y gwanwyn nesaf. Diolch am roi o'ch amser i rannu eich barn â ni.

# 1. Cyflwyniad

## Ein rôl

- 1.1. Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau (heblaw graddau) yng Nghymru.<sup>1</sup>
- 1.2. Un o'n swyddogaethau yw gosod gofynion lefel uchel ar gyfer cymwysterau allweddol wedi'u cynllunio'n benodol i Gymru. Rydym yn cadw llygad ar y gofynion cynllunio hyn i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben ac yn nodi lle gall fod angen newidiadau.
- 1.3. Ffocws yr ymgynghoriad hwn yw cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a fframwaith cysylltiedig Bagloriaeth Cymru Uwch.
- 1.4. Cymhwyster Lefel 3 yw'r THS Uwch a gymerir yn bennaf gan ddysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn rhaglenni astudio Lefel 3, fel Safon Uwch.


## Cipolwg ar y cynigion

- 1.5. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn holi barn ar newidiadau arfaethedig i gymhwyster y THS Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch. Yn benodol, rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion i:
  - Derfynu fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (THS) yn gymhwyster annibynnol
  - Datblygu cymhwyster newydd Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch
- 1.6. Eglura'r diagram canlynol fanylion fframwaith cyfredol Bagloriaeth Cymru Uwch, gan gynnwys sut mae'r THS Uwch yn rhan ohono.

---

<sup>1</sup> Mae Deddf Cymwysterau Cymru (2015) yn rhoi inni nifer o bwerau i allu bodloni ein swyddogaeth reoleiddio i gyrraedd ein nodau. Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth ac rydym yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd.

Diagram 1: Manylion Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch



- 1.7. Er mwyn llwyddo ym Magloriaeth Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r THS Uwch, ynghyd â dau gymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol arall pellach, yn ogystal â chyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg -Rhifedd ac mewn TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn destun graddau; mae'r dysgwyr naill ai'n llwyddo neu'n methu ynddi gan ddibynnu a ydynt wedi cyflawni'r cyfuniad gofynnol o gymwysterau.
- 1.8. Cymhwyster y THS Uwch yw congfaen fframwaith Bagloriaeth Cymru. Mae'n gymhwyster annibynnol sy'n cynnwys pedair cydran, fel y disgrifir yn Niagram 1. Mae'n debyg ei faint i gymhwyster Safon Uwch ac mae'n cael gradd rhwng A\* ac E. Yn debyg i gymwysterau Safon Uwch a chyfatebol eraill, mae'r THS Uwch yn cario pwyntiau tariff UCAS, a ddefnyddir gan rai prifysgolion a cholegau wrth wneud cynigion i ymgeiswyr.
- 1.9. Rydym am glywed eich barn am ein cynigion am THS Uwch newydd. Nodir ein cynigion yn fanwl yn Adran 2 o'r ddogfen hon.

- 1.10. Mae ein hymagwedd at ddatblygu'r cynigion hyn yn unol â'n prif nodau a'r wyth mater y mae'n rhaid inni eu hystyried yn briodol, fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.<sup>2</sup> Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau bod y cynigion hyn yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy<sup>3</sup> a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol), ein hamcanion mewn perthynas â'r Ddeddf hon,<sup>4</sup> a'n Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus fel y'i hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<sup>5</sup> Trafodir y rhain yn fanylach yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cael ei gynnwys yn Adran 4 o'r ddogfen ymgynghori hon.
- 1.11. I ystyried effaith bosibl ein cynigion ar bobl sy'n byw yng Nghymru, heddiw ac yn y dyfodol, rydym wedi cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid, a cheisio eu cyfraniad, drwy ein gweithgareddau ymgysylltu. Rydym hefyd wedi ystyried sut gall y cymhwyster helpu ysgolion i fodloni dyletswydd Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gyd-destunau dysgu'r cymhwyster, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddiaeth, cynaliadwyedd, a nodau Llesiant Cymru.<sup>6</sup>
- 1.12. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Adran 4 am bwy y buom yn ymgysylltu â hwy a'r tybiaethau gwaith a fabwysiadwyd gennym wrth ddatblygu'r cynigion.
- 1.13. Ar gyfer pob cynnig, gofynnwn i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno, a chynigiwn ichi gyfle i egluro eich barn. Rydym wedi cynnwys y cwestiynau ymgynghori perthnasol yn dilyn pob cynnig yn y ddogfen hon.
- 1.14. Rydym wedi cynhyrchu Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn rhan o'r ddogfen ymgynghori hon. Gofynnwn am eich barn am effaith bosibl ein cynigion, gan gynnwys unrhyw effaith ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchoddedig,<sup>7</sup> ac ar y Gymraeg.

---

<sup>2</sup>Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) Deddf Cymwysterau Cymru 2015  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/section/3/enacted>

<sup>3</sup> Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn amlinellu pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i gyflawni nodau Llesiant y Ddeddf. Y rhain yw'r tymor hir (cydbwysio anghenion tymor byr a thymor hir), atal (atal problemau rhag digwydd neu waethygu i helpu cyrff cyhoeddus i gyrraedd eu nodau), integreiddio (ystyried effaith ein hamcanion ar nodau Llesiant ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill), cydweithio (gweithio gyda phobl berthnasol eraill) a chynnwys (cynnwys eraill sydd â diddordeb yn y nodau Llesiant).

<sup>4</sup> Cymwysterau Cymru (2018), Datganiad ac amcanion mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol  
<https://qualificationswales.org/media/3338/wellbeing-future-generations-objectives-2018-w.pdf>

<sup>5</sup> Adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

<sup>6</sup> Mae'r nodau Llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys cydweithio i wneud Cymru yn Gymru fwy cyfrifol, mwy cydlynol, iachach, mwy llewyrchus a chynaliadwy gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r gyd-destunau dysgu a ddarperir yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn cynnig cyfleoedd i ddysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol hyn.

<sup>7</sup> Fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb (2010).

- 1.15. Ar ôl dadansoddi eich holl ymatebion, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau ochr yn ochr â'n penderfyniadau yng ngwanwyn 2021.

## Cefndir

- 1.16. Bu fframwaith cyfredol Bagloriaeth Cymru Uwch, sy'n cynnwys cymhwyster y THS Uwch wrth ei wraidd, ar gael ers 2015.
- 1.17. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adroddiad, ['Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015'](#), a oedd yn ymchwilio i faterion a godwyd gan y rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau gweithredu cychwynol cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS).<sup>8</sup> Daethom i'r casgliad y dylid cynnal adolygiad o asesiad a strwythur y THS a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru.
- 1.18. O ganlyniad, ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adroddiad, ['Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru'](#), yn dilyn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Wavehill Ltd, mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg UCL.
- 1.19. Canfu'r adolygiad fod y THS yn gymhwyster buddiol iawn, a'i bod yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill sgiliau bywyd go iawn a datblygu eu diddordebau drwy ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol iddyn nhw.
- 1.20. Roedd [adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)<sup>9</sup> (a gyhoeddwyd yn 2019) yn nodi, yn yr un modd, ffyrdd y mae'r THS yn cael ei gwerthfawrogi, gan gynnwys drwy roi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt.
- 1.21. Yn ogystal â'r cryfderau, argymhellodd yr adolygiadau hyn feysydd i'w gwella. Mae'r argymhellion yn gysylltiedig â materion yng nghynllun Bagloriaeth Cymru a'r THS gan gynnwys gorgymhlethdod, hydrinedd a dyblygu asesu. Un casgliad pellach oedd bod angen gwneud mwy i gyfleu gwerth y cymhwyster i ddysgwyr. Mae ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod lle i wella.
- 1.22. Mewn ymateb i gyhoeddi'r adolygiadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wedi datblygu'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Wrth gyflwyno'r newidiadau arfaethedig hyn, ein bwriad yw meithrin ymhellach gryfderau lawer y cymhwyster cyfredol a nodwyd eisoes.
- 1.23. Wrth ystyried ein hymagwedd, rydym yn ymwybodol o'r gwaith ehangach i ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru a'r effaith a gaiff ar y cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr 16 oed. Er bod y THS Uwch yn gymhwyster a gymerir gan ddysgwyr ôl-

---

<sup>8</sup> Roedd yr adolygiad yn ymchwilio i faterion perthynol i bob un o bedwar cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau a oedd ar gael ar y pryd ac nid oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar y THS Uwch.

<sup>9</sup> Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ail-enwi yn Senedd Cymru ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

16, rydym wedi ystyried effaith diwygio'r cwricwlwm i sicrhau dilyniant priodol i ddysgwyr.

## Cwmpas yr ymgynghoriad

- 1.24. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn holi barn am newidiadau arfaethedig i gynllun y cymhwyster THS Uwch a'i berthynas â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru.
- 1.25. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn berthynol i'r cymhwyster THS a fframwaith Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch yn unig. Parhawn i ystyried diwygiadau i gymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol / Sylfaen a'r Fagloriaeth Cymru berthynol sydd wedi'u cynllunio i ddysgwyr 14-16 oed. Fodd bynnag, am fod y rhain yn rhan o'n diwygio ehangach o gymwysterau 14-16, nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.
- 1.26. Mae nifer o faterion sy'n berthynol i bolisi addysg genedlaethol sy'n effeithio ar Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys polisi Llywodraeth Cymru i annog pob ysgol a choleg i'w chynnig fel rhan o'u rhaglenni dysgu, trefniadau cyllido a mesurau perfformiad. Am fod Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am bolisi addysg genedlaethol, nid yw'r materion hyn yn perthyn i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Rydym wedi trafod ein cynigion gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith bosibl ar bolisi Llywodraeth Cymru.
- 1.27. Buom yn gweithio'n agos gydag ystod eang o randdeiliaid i lunio ein cynigion ac i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r cymhwyster yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn barod ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2023.
- 1.28. Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i bawb. Hoffem yn benodol glywed gan:
  - ddysgwyr
  - rhieni a gofalwyr
  - gweithwyr addysg proffesiynol
  - ysgolion a cholegau
  - prifysgolion
  - cyflogwyr a / neu eu cyrff cynrychiadol
  - awdurdodau lleol
  - consortia addysg rhanbarthol
  - undebau'r athrawon
  - cyrff dyfarnu, a
  - sefydliadau / unigolion eraill â diddordeb yn y sector addysg.

## Sut i ymateb

- 1.29. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am gyfnod o wyth wythnos o 21 Medi i 13 Tachwedd 2020. Yn ogystal â'r brif ddogfen ymgynghori, mae [fersiwn gryno](#) ar gael fel dewis amgen ar gyfer dysgwyr a'u rhieni.



- 1.30. Rydym yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn [Gymraeg](#) neu yn [Saesneg](#) gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein.
- 1.31. Os nad oes modd ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein, ac os oes angen ichi ddarparu eich ymateb drwy fformat amgen, anfonwch ef i:  
Ymchwil Arad yn [post@arad.wales](mailto:post@arad.wales), neu: 8 Columbus Walk, Brigantine Place, Caerdydd, CF10 4SD.
- 1.32. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd sy'n amlinellu sut byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol a rowch yn eich ymateb. Mae hwn ar gael ar ein [gwefan](#).
- 1.33. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad ei hun, cysylltwch â: [sgiliaurdyfodol@cymwysteraucymru.org](mailto:sgiliaurdyfodol@cymwysteraucymru.org)
- 1.34. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am **hanner dydd** ar **13 Tachwedd 2020**. Ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a gyflwynir ar ôl i'r ymgynghoriad gau.


## 2. Ein cynigion

### Adran A: Fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch

#### Cynnig 1: Dylid dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.

- 2.1.1. Mae fframwaith Bagloriaeth Cymru, gan gynnwys y THS Uwch wrth ei gwraidd, yn gymhleth o ran cynllun, gan ei gwneud yn anodd ei egluro i randdeiliaid a rhwystro ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.
- 2.1.2. Dengys y diagram isod y berthynas rhwng y THS Uwch a fframwaith ehangach Bagloriaeth Cymru.

Diagram 2: Manylion fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch



- 2.1.3. Er mwyn llwyddo ym Magloriaeth Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r THS Uwch, ynghyd â dau gymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol pellach, yn ogystal â chyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-

Rhifedd ac mewn TGAU Cymraeg laith neu TGAU Saesneg laith. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn destun graddau; mae dysgwyr naill ai'n llwyddo neu'n methu gan ddibynnu a ydynt wedi cyflawni'r cyfuniad gofynnol o gymwysterau. Nid yw fframwaith Bagloriaeth Cymru yn cario pwyntiau tariff UCAS, a ddefnyddir gan rai prifysgolion a cholegau wrth wneud cynigion i ymgeiswyr.

- 2.1.4. Cymhwyster y THS Uwch yw conglaen fframwaith Bagloriaeth Cymru ac mae'n cynnwys pedair cydran, fel uchod. Mae'n debyg ei faint i gymhwyster Safon Uwch ac mae'n cael ei raddio rhwng A\* ac E. Yn debyg i gymwysterau Safon Uwch a chyfatebol eraill, mae'r THS Uwch yn cario pwyntiau tariff UCAS, a ddefnyddir gan rai prifysgolion a cholegau wrth wneud cynigion i ymgeiswyr.
- 2.1.5. Felly, mae modd i ddysgwr fethu pasio fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch ond cyflawni'r THS Uwch o hyd. Cred llawer fod hyn yn peri dryswch i randdeiliaid, er enghraifft i ddysgwyr a'u rhieni wrth ystyried a ydy dysgwr wedi bodloni'r gofynion mynediad am le yn y brifysgol.
- 2.1.6. Er gwaethaf gwahanol ddibenion fframwaith Bagloriaeth Cymru a chymhwyster y THS Uwch ynddo, defnyddir y termau'n aml yn gyfnewidiol a phrin y deallir y berthynas rhyngddynt.
- 2.1.7. Byddai ein cynnig yn lleihau cymhlethdod ac yn symleiddio'r negeseuon. Heb y fframwaith Bagloriaeth Cymru ychwanegol, gall negeseuon ganolbwyntio ar gymhwyster annibynnol y THS Uwch, gan osgoi dryswch dianghenraid.
- 2.1.8. Am fod Bagloriaeth Cymru'n cynnwys nifer o gymwysterau, mae ei dyfarnu yn cynnwys casglu ac agregu data o lawer o wahanol gyrff dyfarnu. Byddai terfynu'r fframwaith yn helpu i wneud y costau a'r gofynion gweinyddu'n fwy hydryn i ganolfannau.
- 2.1.9. Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru gael ei farnu'n annheg i ymgeiswyr sy'n methu cyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg / Mathemateg -Rhifedd neu TGAU Saesneg laith / Cymraeg laith. Er mwyn i ddysgwyr gael ymgeisio am y THS Uwch, rhaid hefyd iddynt ymgeisio am Bagloriaeth Cymru. Ni waeth pa radd y bydd y dysgwyr hyn yn ei chyflawni yn y THS Uwch, ni fydd y dysgwyr hyn yn gallu cyflawni Bagloriaeth Cymru oherwydd y gofyniad hwn. I rai dysgwyr sy'n methu cyflawni holl ofynion fframwaith Bagloriaeth Cymru, gallai hyn leihau eu cymhelliant a chael effaith niweidiol ar eu llesiant.
- 2.1.10. Rydym yn cydnabod y byddai angen cyfathrebu gofalus i derfynu fframwaith Bagloriaeth Cymru. Byddai hefyd yn debygol o fynnu bod teitl y THS Uwch yn cael ei newid, a byddai angen cyfathrebu hynny'n helaeth. Gallai'r newidiadau hyn hefyd olygu cost ariannol i randdeiliaid os bydd angen iddynt newid ffynonellau gwybodaeth (er enghraifft, prospectws neu wefan ysgol neu goleg).

2.1.11. Rydym hefyd yn cydnabod mai bwriad fframwaith Bagloriaeth Cymru yw arddangos proffil cyffredinol dysgwr, y gellir ei ystyried yn werthfawr o ran nodi ehangder y sgiliau a gwybodaeth sydd gan y dysgwr. Er hyn, credwn fod manteision terfynu fframwaith Bagloriaeth Cymru yn gorbwysu'r anfanteision a nodwyd. Mae gwaith ymgysylltu â chyflogwyr a chynrychiolwyr prifysgolion wedi awgrymu mai cymhwyster y THS Uwch a werthfawrogir fwyaf, ac nid fframwaith Bagloriaeth Cymru, oherwydd y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Gall dysgwyr arddangos eu proffil academaidd ehangach drwy'r cyfuniad o gymwysterau a gyflawnant heb yr angen i adlewyrchu'r cyflawniadau hyn mewn cymhwyster ar wahân. Er bod egwyddor sylfaenol fframwaith Bagloriaeth Cymru yn gadarn, ymddangosir nad oes ei angen yn ymarferol.

## Cwestiwn Ymgynghori 1

**Dylid dod â fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch i ben, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## Adran B: Y Cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Newydd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif gynigion am gymhwyster THS Uwch newydd. Mae'r rhain yn cael eu cynnig i fynd i'r afael ag argymhellion a nodwyd yn yr adolygiadau a amlinellwyd uchod (Adran 1) ac i adlewyrchu canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae ein cynigion yn berthynol i'r agweddau canlynol ar gymhwyster y THS Uwch:

- **Diben**
- **Cyd-destunau dysgu**
- **Strwythur**
- **Strwythur asesu**
- **Graddio**

### Diben

**Cynnig 2: Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.**

- 2.2.1. Cynigiwn mai diben y THS Uwch ddiwygiedig ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso sgiliau i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.
- 2.2.2. I wneud hyn, bydd y cymhwyster yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ac asesu sgiliau Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesedd; Cynllunio a Threfnu; ac Effeithiolrwydd Personol.
- 2.2.3. Y rhain yw'r sgiliau y cyfeirir atynt fel Sgiliau Cyfannol yn y cwricwlwm newydd. Er cyfeirio'n rhwydd, cyfeirir atynt hefyd yn Sgiliau Cyfannol yn yr ymgynghoriad hwn. Dengys hyn ein bwriad i'r cymhwyster THS Uwch newydd fod yn gyson â datblygu sgiliau yn y cwricwlwm newydd, a chaniatáu dilyniant o'r cwricwlwm newydd.
- 2.2.4. Bydd y cymhwyster hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol, ond ni fydd yn asesu'r rhain yn uniongyrchol. Rydym yn cynnig trafodaeth fanylach am asesu sgiliau mewn perthynas â'r cynnig ar y strwythur asesu (Cynnig 4).
- 2.2.5. I baratoi dysgwyr ar gyfer dysgu gydol oes, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar, bydd cynllun y cymhwyster yn darparu cyfleoedd dysgu dilys, bywyd go iawn sydd yn berthnasol ac yn ystyrion. Bydd ffocws ar ddysgu y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a bydd cyfraniad allanol yn cael ei annog, er enghraifft gan brifysgolion,

cyflogwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Mae hyn yn helpu i gyrraedd y nod o gefnogi dysgwyr gyda cheisiadau prifysgol, yn ogystal â symud ymlaen at brentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth.

- 2.2.6. Mae diben y cymhwyster hefyd yn golygu caniatáu i ddysgwyr arfer rhywfaint o ymreolaeth a dewis personol o ran ffurf eu dysgu eu hunain. Dylid cefnogi dysgwyr i ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol i'w diddordebau personol a'u llwybrau dilyniant unigol. Bydd hefyd yn helpu dysgwyr i weld perthnasedd y cymhwyster oherwydd bydd y sgiliau a ddatblygant yn eu helpu yn eu llwybrau yn y dyfodol.
- 2.2.7. Bydd y cymhwyster yn cael ei gynllunio i gynnwys cyd-destunau dysgu sy'n berthnasol ac yn gyfredol i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar. Eglurir ffocws y cyd-destunau dysgu hyn yn fanylach mewn perthynas â'r cynnig ar gyd-destunau dysgu (Cynnig 3).
- 2.2.8. Wrth ddilyn y dull hwn, ein bwriad yw cynnal y pedwar diben sy'n sail i'r cwricwlwm newydd i Gymru, a darparu dilyniant priodol i gefnogi llwyddiannau a llesiant dysgwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

## Cwestiwn Ymgynghori 2

**Diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## Cyd-destunau dysgu

### Cynnig 3: I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu ac yn arddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.

- 2.3.1. Un o gryfderau'r cymhwyster cyfredol yw'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi am ymrwymiad beirniadol a dinesig oherwydd y ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar. Er mwyn meithrin y cryfder hwn ymhellach, cynigiwn y dylai'r THS Uwch newydd fynnu bod dysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso eu sgiliau o fewn cyd-destunau gweddol bendant.
- 2.3.2. Nid ydym yn awgrymu y dylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol ar y cyd-destunau hyn na'r hyn a wyddant amdanynt. Y nod yw bod y prosiectau a gwlbheir ganddynt yn rhan o'r cymhwyster yn cael eu gosod o fewn cyd-destunau dysgu pendant, a'u bod yn berthynol iddynt.
- 2.3.3. O drafod gyda rhanddeiliaid, daethom i'r casgliad y dylai'r cyd-destunau dysgu y mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ynddynt ganolbwyntio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru. Mae'r nodau hyn yn darparu fframweithiau datblygedig o faterion i helpu i fframio'r broses o ddatblygu ac asesu sgiliau. Am fod y nodau wedi'u cyflwyno mewn fframweithiau wedi'u datblygu a'u strwythuro'n ofalus, mae'n helpu pobl ifanc i gysylltu â'r nodau a datblygu i fod yn ddinasyddion gweithgar.
- 2.3.4. Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn set o 17 o nodau a thargedau a osodwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn 2015. Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn hygyrch ac wedi'u cyfathrebu'n glir, ac mae'r Cenhedloedd Unedig yn crynhoi ac yn rhannu gwybodaeth gyd-destunol, gan gynnwys ffeithiau a thystiolaeth i gyfiawnhau'r nodau. Rhennir pob nod yn set o is-dargedau. Mae'r rhain yn darparu manau cychwyn da i ddysgwyr ymgysylltu â materion byd-eang ac i feddwl yn feirniadol am y ffynonellau gwybodaeth a ffactorau cymhleth perthnasol.
- 2.3.5. Dyma Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:
- |                                     |   |
|-------------------------------------|---|
| 1. Dim tlodi                        | 10. Llai o anghydraddoldeb  |
| 2. Dim newyn                        | 11. Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy   |
| 3. Iechyd a llesiant da             | 12. Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol   |
| 4. Addysg o ansawdd                 | 13. Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd  |
| 5. Cydraddoldeb rhwng y rhywiau     | 14. Bywyd o dan y dŵr   |
| 6. Dŵr glân a glanweithdra          | 15. Bywyd ar y tir  |
| 7. Ynni glân a fforddiadwy          | 16. Heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cadarn  |
| 8. Gwaith teilwng a thwf economaidd | 17. Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau   |
| 9. Diwydiant, arloesi a seilwaith   | <a href="https://www.un.org/sustainabledevelopment/">https://www.un.org/sustainabledevelopment/</a> |

2.3.6. Yn 2015, pasiodd Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant sy'n adlewyrchu pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy yng Nghymru: ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n hiaith a'n diwylliant. Mae'r nodau llesiant yn flaenoriaethau cenedlaethol sy'n dangos ymrwymiad Cymru i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dyma'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

2.3.7. Drwy asesu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n canolbwyntio ar y materion dengar, perthnasol a blaengar hyn, bydd y cymhwyster newydd yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

2.3.8. Bydd y ffocws hwn yn helpu i wahaniaethu rhwng gofynion y cymhwyster ar lefel Uwch a sicrhau dilyniant priodol o'r Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol / Sylfaen. Drwy gynnig ffocws ar nodau llesiant Cymru, cynigir dimensiwn Cymreig allblyg i'r cymhwyster. Mae hefyd yn cefnogi dilyniant i ddysgwyr a fydd yn fwyfwy cyfarwydd â'r nodau llesiant wrth i'r cwricwlwm newydd i Gymru gael ei gyflwyno. Wrth gynnig y ffocws hwn, byddai hefyd yn cefnogi a hyrwyddo'r hawliau sy'n cael eu cynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn benodol, drwy alluogi dysgwyr i wybod mwy am flaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol, mae dysgwyr mewn gwell sefyllfa i fod yn ymwybodol o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac felly i gymryd rhan ynddynt (Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).


2.3.9. Bydd angen i'r symudiad hwn at gyd-destunau dysgu mwy pendant gael ei gyfathrebu'n ofalus i sicrhau bod athrawon a dysgwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir. Er gwaethaf y ffocws mwy penodol, bydd y pwyslais o hyd ar hyrwyddo annibyniaeth ymhlith dysgwyr. Yn hytrach na mynnu bod athrawon yn darparu cynnwys manwl o'r agendâu hyn, y bwriad yw bod dysgwyr yn gallu cael at ffynonellau gwybodaeth yn fwy annibynnol a bod hyn yn sail ar gyfer datblygu a chymhwyso sgiliau.

2.3.10. Am fod y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r nodau llesiant yn cael eu cyflwyno mewn fframweithiau sydd wedi'u hen sefydlu, mae ffynonellau o wybodaeth hygyrch a diddorol ar gael yn helaeth amdanynt i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau



dwyeithog mewn perthynas â'r nodau llesiant.<sup>10</sup> Bydd angen gwneud mwy o waith i nodi a fydd angen adnoddau ychwanegol, gan gynnwys ffynonellau dwyieithog.

Diagram 3: Y berthynas rhwng y cyd-destunau dysgu a diben y cymhwyster



### Cwestiwn Ymgynghori 3

**I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu ac yn arddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol

<sup>10</sup> Mae'r weledigaeth y tu ôl i bob un o'r nodau yn hygyrch, wedi'i chyfleu'n glir ac yn hawdd ei chysylltu â'r pedwar dimensiwn llesiant y bydd dysgwyr yn gallu ymgysylltu â nhw: economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae adnoddau dwyieithog hygyrch yn cael eu darparu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, gan gynnwys crynodeb o'r cynnwys hanfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr hanfodion).

- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## Strwythur

2.4.1. Mae ein cynigion ar gyfer strwythur y THS Uwch newydd yn cynnwys:

- Nifer y cydrannau ac amlinelliad ohonynt
- Maint y cymhwyster a chyfraniad y cydrannau at y cymhwyster cyffredinol (pwysoliadau)

2.4.2. Mae'r diagram canlynol yn cyfleu ein cynigion ar gyfer strwythur y THS Uwch newydd:

*Diagram 4: Strwythur arfaethedig y Dystysgrif Sgiliau Her Uwch newydd*

<b>Strwythur y cymhwyster: 360 o Oriau Dysgu Dan Arweiniad</b>		
<b>Cydran</b>	<b>Cyfraniad at radd y cymhwyster (pwysoliad)</b>	<b>Cynnwys</b>
<b>Cydran 1: Prosiect Cymuned Fyd-eang</b>	25%	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth ystyried materion byd-eang cymhleth a chyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol lleol (o leiaf 15 awr) i hyrwyddo dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
<b>Cydran 2: Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol</b>	25%	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth archwilio nodau cyrchfannau'r dyfodol ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
<b>Cydran 3: Prosiect Unigol</b>	50%	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth gynllunio, rheoli a chynnal prosiect ymchwil annibynnol (artefact neu brosiect ysgrifenedig).

**Cynnig 4: Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair. Y tair cydran wedi'u cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod:**

- B) Cydran 1 – Prosiect cymuned Fyd-eang**
- C) Cydran 2 – Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol**
- D) Cydran 3 – Prosiect Unigol**

*Diagram 5: Cydrannau arfaethedig ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Her Uwch newydd*

Cydran	Cynnwys
<b>Cydran 1: Prosiect Cymuned Fyd-eang</b>	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth ystyried materion byd-eang cymhleth a chyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol lleol (15 awr) i hyrwyddo dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
<b>Cydran 2: Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol</b>	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth archwilio nodau cyrchfan y dyfodol ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
<b>Cydran 3: Prosiect Unigol</b>	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos eu cymhwyso wrth gynllunio, rheoli a chynnal prosiect ymchwil annibynnol (artefact neu brosiect ysgrifenedig).

- 2.4.3. Cynigiwn leihau nifer y cydrannau o bedair i dair i wella hydrinedd y cymhwyster. Bydd newid nifer y cydrannau yn lleihau'r hyn a fynnir gan y cymhwyster o ran gofynion cyflenwi, asesu a chymedroli, heb danseilio dilysrwydd y cymhwyster na gwerth y profiad dysgu. Mae cael pedair cydran yn y cymhwyster cyfredol wedi arwain at ddyblygu asesu lle bu gofyn i ddysgwyr gymhwyso eu sgiliau mewn modd tebyg nifer o weithiau. Er bod y cydrannau cyfredol yn darparu cyd-destunau addas ac ystyrlon, mae'n bosibl i ddysgwyr wneud llai ohonynt heb effeithio'n negyddol ar y deilliannau dysgu.
- 2.4.4. Cynigiwn y dylid galw'r cydrannau i gyd yn 'brosiectau' yn hytrach na 'heriau'. Gwneir hyn i osgoi rhywfaint o'r arwyddocâd negyddol a all fod yn gysylltiedig â'r gair 'her' ac i sicrhau ei fod yn adlewyrchu nodau'r cymhwyster yn fwy o ran paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu yn y dyfodol. Mae cyflogwyr wedi dweud wrthym y gallai defnyddio iaith rheoli prosiectau helpu i hybu statws cymhwyster sgiliau a chyfleu ei ddiben i ddysgwyr.
- 2.4.5. Mae llai o gydrannau yn golygu y bydd yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymuned yn y cymhwyster cyfredol yn cael eu cyfuno yn y Prosiect Cymuned Fyd-

eang. Ein nod yw lleihau gorasesu sgiliau ond hefyd caniatáu i'r sgiliau hynny gael eu cymhwysu mewn ffyrdd effeithiol a gwerthfawr. Er enghraifft, gallai dysgwyr ddefnyddio eu sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau i ymchwilio i faterion byd-eang, a'u sgiliau creadigrwydd ac arloesedd i gymhwysu eu dysgu i weithgaredd cymunedol lleol, addas.

- 2.4.6. Bydd y cynllun a gynigir yn helpu dysgwyr i werthfawrogi'n well bwysigrwydd datblygu sgiliau ar gyfer dinasyddiaeth weithgar. Er enghraifft, mae cyfuno materion byd-eang a gweithredu cymunedol lleol mewn un gydran yn galluogi dysgwyr i weld yn gliriach y cysylltiadau rhwng dinasyddiaeth ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang.
- 2.4.7. Cynigiwn hefyd leihau'r amser y mae'n rhaid i ddysgwyr ei dreulio yn cyfranogi yn y gymuned o 30 awr i 15 awr. Mae hyn yn mynd i'r afael â phryderon hydrinedd a godwyd gan ymarferwyr a dysgwyr.
- 2.4.8. Ar hyn o bryd, mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn gydran sy'n rhan o'r THS ar lefel Uwch a lefel Genedlaethol / Sylfaen. Mae hyn yn creu dyblygu dysgu ar draws y ddau gymhwyster ac ystyrir ei fod yn atal dilyniant clir o'r naill lefel i'r llall.
- 2.4.9. Cynigiwn gael gwared ar yr Her Menter a Chyflogadwyedd o'r THS Uwch newydd a chael yn ei lle Brosiect Cyrchfannau'r Dyfodol. Bydd hyn yn helpu i waredu'r dyblygu a chefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau.
- 2.4.10. Yn sgil y newid hwn, ni fydd y THS Uwch newydd yn cynnwys gweithgaredd Menter. Felly, ni fydd gofyniad mwyach i ddysgwyr gael eu hasesu fel rhan o dîm. Fodd bynnag, bydd y cymhwyster yn cael ei gynllunio i annog dysgwyr i ddatblygu a chymhwysu eu sgiliau drwy weithio'n annibynnol ac mewn cydweithrediad ag eraill drwy gydol y cymhwyster. Bydd hyn yn rhoi iddynt yr hyblygrwydd i weithio gydag eraill nad ydynt efallai eu hunain yn cymryd y cymwysterau, gan wneud yr elfen hon yn fwy dilys.
- 2.4.11. Bydd Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar gyflogadwyedd, a gaiff ei ystyried yn gryfder yn y cymhwyster cyfredol. Fodd bynnag, mae'r ffocws wedi'i wella i gwmpasu dealltwriaeth ehangach o'r amrywiaeth o ystyriaethau a all ddylanwadu ar ddewisiadau a dyheadau dysgwyr. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried y ffyrdd niferus y bydd eu penderfyniadau am gyrchfannau yn y dyfodol yn effeithio ar eu lles, yn ogystal â lles pobl eraill. Yn ogystal â chyflogaeth, bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio'r gwahanol ffyrdd y mae unigolion a sefydliadau yn cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas, er enghraifft trwy ystyried cydweithfeydd a'r sectorau gwirfoddol ac elusennol. Y nod yw i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall penderfyniadau am gyrchfannau yn y dyfodol ddylanwadu ar fyd a Chymru gynaliadwy.
- 2.4.12. O'n hymchwili a'n hymgysylltu, ystyrir yn gyffredinol fod y Prosiect Unigol ymhlith cryfderau'r cymhwyster. Mae'n darparu cyd-destun dysgu ardderchog ar gyfer

datblygu ac asesu sgiliau ac yn annog annibyniaeth. Cynigiwn y dylai'r Prosiect Unigol barhau yn rhan o'r cymhwyster newydd. Fodd bynnag, disgwyliem i'r meini prawf asesu ar gyfer y Prosiect Unigol gael eu gwella pan ddatblygir y cymhwyster newydd. Yn benodol, byddem yn mynnu ystyried yn ofalus y gwahanol dystiolaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr sy'n dewis y prosiectau ymchwil ysgrifenedig ac arteffact.

2.4.13. Er lleihau nifer y cydrannau, ni fydd yr Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODDA) ar gyfer cyflenwi'r cymhwyster yn cael eu lleihau a bydd y THS Uwch yn parhau cymaint â chymhwyster Safon Uwch. Oherwydd bydd maint a strwythur graddio'r cymhwyster cyffredinol yn parhau'r un peth, ni fydd unrhyw effaith ar y ffordd y caiff pwyntiau UCAS eu priodoli i'r cymhwyster.

## Cwestiwn Ymgynghori 4

**Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch er mwyn lleihau nifer y cydrannau o bedair i dair. Y tair cydran i'w cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ddylai fod:**

**Cydran 1 – Prosiect Cymuned Fyd-eang**

**Cydran 2 – Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol**

**Cydran 3 – Prosiect Unigol**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## Cynnig 5: Dylai tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

**Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%**

**Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%**

**Prosiect Unigol – 50%**

- 2.5.1. Bydd y THS Uwch newydd yn parhau'r un maint â'r cymhwyster cyffredol. Defnyddiwn Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) yn ddangosydd maint cymhwyster. Bydd y THS Uwch newydd yn cael ei chynllunio i'w chyflenwi mewn 360 o Oriau Dysgu dan Arweiniad ac mae hyn yn adlewyrchu'r disgrifydd maint ar gyfer y cymhwyster presennol.
- 2.5.2. Mae hyn yn sicrhau bod y cymhwyster newydd yn parhau i fod yn ddwy flynedd o gwrs astudio yn debyg o ran maint i gymhwyster Safon Uwch.
- 2.5.3. Awgryma ein holl ymgysylltu fod y THS Uwch gyffredol yn cymryd amser addysgu a dysgu sylweddol i'w chwblhau. Gyda'r newidiadau a gynigiwn i'w strwythur, ystyriwn y bydd 360 o Oriau Dysgu Dan Arweiniad yn arwydd cywirach o faint y THS newydd nag y mae ar gyfer y fersiwn gyffredol.
- 2.5.4. Cynigiwn y dylai'r cydrannau yn y THS Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

*Diagram 6: Cyfraniad y cydrannau at radd gyffredinol y cymhwyster (pwysoliad)*

Cydran	Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster (pwysoliad)
<b>Cydran 1: Prosiect Cymuned Fyd-eang</b>	25%
<b>Cydran 2: Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol</b>	25%
<b>Cydran 3: Prosiect Unigol</b>	50%

- 2.5.5. Bydd y pwysoliadau a ddyrannwyd i'r cydrannau yn sicrhau bod y Prosiect Unigol yn parhau i gyfrif am 50% o'r cymhwyster cyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd yr elfen hon wrth baratoi dysgwyr ar gyfer addysg uwch a datblygu eu hannibyniaeth.
- 2.5.6. Mae gan gydrannau 1 a 2 bwysoliad o 25% ill dwy. Mae hyn yn adlewyrchu eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd ac y dylai dysgwyr dreulio tua'r un amser yn eu cwblhau.
- 2.5.7. Wrth ddyrannu'r pwysoliadau fel hyn, credwn y bydd yn helpu'r cymhwyster i gael ei gyflenwi'n effeithiol dros ddwy flynedd, gan ddisgwyl y gellir cyflenwi cydrannau 1 a 2

yn y flwyddyn astudio gyntaf, gan arwain at gydran 3 yn yr ail flwyddyn astudio. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd sydd ei angen i ddysgwyr astudio'n fwy annibynnol wrth gwblhau'r Prosiect Unigol.

## Cwestiwn Ymgynghori 5

**Dylai tair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:**

**Prosiect Cymuned Fyd-eang – 25%**  
**Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%**  
**Prosiect Unigol– 50%**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## Strwythur asesu

**Cynnig 6: Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol canlynol: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.**

*Diagram 7: Cymhwyso sgiliau yn y Dystysgrif Sgiliau Her Uwch newydd*

<b>Cymhwyso sgiliau yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd</b>	
<b>Sgiliau sy'n cael eu hasesu*</b> Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau Creadigrwydd ac Arloesedd Cynllunio a Threfnu Effeithiolrwydd Personol	<b>Sgiliau wedi'u sefydlu</b> Llythrennedd Rhifedd Cymhwysedd Digidol

\*Cyfeirir at y rhain fel y Sgiliau Cyfannol yn y cwricwlwm newydd, ond gyda dilyniant addas i Lefel 3.

Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn, ond ni fyddant yn ddeilliannau dysgu penodol.

- 2.6.1. Cynigiwn y dylai'r THS Uwch newydd ganolbwyntio ar bedwar o Sgiliau Cyfannol sef: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.
- 2.6.2. Ceisia'r THS Uwch gyfredol asesu saith o sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys y pedwar Sgil Cyfannol a restrir uchod yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae asesu cynifer â hyn o wahanol sgiliau mewn un cymhwyster yn heriol, gan greu model asesu cymharol gymhleth a beichus. Bydd canolbwyntio'r asesu ar y Sgiliau Cyfannol yn gwneud yr asesu'n fwy dilys, yn fwy effeithlon ac yn fwy hydrin i ddysgwyr ac i ymarferwyr. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i addysgu a datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac i archwilio cyd-destunau cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.
- 2.6.3. Rydym wedi profi'r cynnig hwn gyda rhanddeiliaid. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i ganolbwyntio ar yr un Sgiliau Cyfannol ag sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd. Ystyriwyd bod hyn yn cynnig parhad i ddysgwyr a chyfle i feithrin ymhellach y sgiliau a ddatblygir mewn safleoedd cyn-16.

## Cwestiwn Ymgynghori 6

### **Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu'r Sgiliau Cyfannol canlynol: Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesedd, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.



## **Cynnig 7: Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r sgiliau hyn fod yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni ddylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.**

- 2.7.1. Gwyddom fod sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol yn bwysig i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.
- 2.7.2. Yn amlwg, bydd arddangos y pedwar Sgil Cyfannol yn effeithiol yn gofyn bod dysgwyr yn datblygu a chymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol mewn ffordd perthnasol. Cynigiwn y dylai'r cymhwyster newydd gydnabod hyn a chael ei gynllunio i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn. Er enghraifft, gallai dysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd wrth archwilio'n feirniadol ffynonellau cymhleth o wybodaeth. Fodd bynnag, bydd y sgiliau hyn yn cael eu gwreiddio ac ni fyddant yn ddeilliannau dysgu penodol. Gall asesu'r sgiliau hyn yn uniongyrchol dynnu sylw i ffordd o brif ffocws yr asesu, gan efallai annog dulliau fformwlaig o gwblhau tasgau.
- 2.7.3. Ni roddir dysgwyr o dan anfantais os caiff y sgiliau hyn eu gwreiddio yn hytrach na'u hasesu'n benodol. Er bod prifysgolion a chyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau hyn, mae ein hymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn awgrymu nad oes angen iddynt edrych at y THS Uwch am dystiolaeth ohonynt. Lle mae tystiolaeth o'r sgiliau hyn yn ofynnol, byddant yn edrych ar yr amrywiaeth o gymwysterau y mae dysgwr yn eu cyflawni.
- 2.7.4. Wrth dynhau'r asesu i ganolbwyntio ar y pedwar Sgil Cyfannol, ein nod yw galluogi mwy o gydbwysedd rhwng yr amser a dreulir yn datblygu sgiliau a'r amser a dreulir yn eu hasesu, yn hytrach na lleihau maint neu faich gwaith y cymhwyster. Bydd gwneud yr asesu'n fwy hydrin fel hyn o fudd i ymarferwyr a dysgwyr.

## **Cwestiwn Ymgynghori 7**

### **Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ofyn bod dysgwyr yn datblygu a rhoi ar waith eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r sgiliau hyn fod yn ddeilliannau dysgu ynddynt eu hunain, ac ni ddylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arnynt.**

- A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
- Cytuno'n gryf
  - Cytuno

- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

**Cynnig 8: Dylai pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu'r pedwar Sgil Cyfannol i gyd. Gallai pob sgil gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgil gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.**

*Diagram 8: Strwythur asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd*

<b>Strwythur asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd</b>				
<b>E) Bydd y strwythur asesu'n canolbwyntio ar y pedwar Sgil Cyfannol</b>				
<b>F) Bydd y pedwar Sgil Cyfannol yn cael eu rhannu'n setiau amlwg o is-sgiliau y gellir eu priodoli i'r gwahanol gydrannau i osgoi dyblygu ac ailadrodd asesu</b>				
	<b>Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau</b>	<b>Creadigrwydd ac Arloesedd</b>	<b>Cynllunio a Threfnu</b>	<b>Effeithiolrwydd Personol</b>
<b>Prosiect Cymuned Fydeang</b>	√	√	√	√
<b>Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol</b>	√	√	√	√
<b>Prosiect Unigol</b>	√	√	√	√
<b>G) Gall pwysoliadau'r pedwar Sgil Cyfannol amrywio ar lefel cydran.</b>				
<b>H) Fodd bynnag, bydd gan pob un o'r pedwar Sgil Cyfannol bwysoliad cyfartal ar lefel cymhwyster.</b>				
<b>Cyfraniad at y cymhwyster cyffredinol</b>	25%	25%	25%	25%
<b>Rhaid bod cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol drwy gydol y cymhwyster.</b>				

- 2.8.1. Cynigiwn y dylai'r pedwar Sgîl Cyfannol i gyd gael eu hasesu ym mhob cydran. Bydd hyn yn sicrhau'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso pob un o'r sgiliau a asesir mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Bydd hefyd yn sicrhau bod ganddynt y cyfle i gael eu hasesu am y sgiliau y mae gofyn iddynt eu harddangos. Mae hyn yn mynd i'r afael â mater a nodwyd gyda'r model cyfredol lle mae gofyn weithiau i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau nad ydynt yn cael eu cynnwys wedyn mewn meini prawf asesu cydran.
- 2.8.2. Ni fydd unrhyw ofyniad i'r Sgiliau Cyfannol gyfrannu'n gyfartal at y deilliannau ar lefel cydran a gall y pwysoliadau a briodolir i bob sgîl amrywio. Fodd bynnag, ar lefel cymhwyster, rhaid i bwysliadau'r sgiliau agregu er mwyn i bob Sgîl Cyfannol gyfrannu 25% at ddeiliant y cymhwyster cyffredinol. Bydd hyn yn symleiddio'r strwythur asesu oherwydd, yn y model cyfredol, priodolir gwahanol bwysoliadau i'r sgiliau sy'n cael eu hasesu. Bydd hefyd yn arwydd o statws cyfartal pob un o'r sgiliau yn y cymhwyster. Bydd gofyn i'r corff dyfarnu sy'n datblygu'r cymhwyster ddarparu sail resymegol glir am briodoli sgiliau i bob cydran.
- 2.8.3. I osgoi dyblygu asesu ar draws y cydrannau, bydd angen i bob sgîl gael ei ddiffinio'n glir a'i rannu'n elfennau cyfansoddol. Bydd hyn yn golygu bod modd targedu gwahanol agweddau ar bob sgîl ym mhob cydran. Bydd hefyd yn helpu i ddangos i ddysgwyr sut gellir cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol yn wahanol mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, gallai effeithiolrwydd personol gynnwys tasg myfyrdod personol yn y Prosiect Cymuned Fyd-eang. Fodd bynnag, yn y Prosiect Unigol, gellid arddangos effeithiolrwydd personol drwy log gweithio sy'n profi gallu'r dysgwr i addasu a newid er mwyn cwblhau prosiect.
- 2.8.4. Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn golygu diffinio elfennau penodol pob Sgîl Cyfannol ac yna mapio'r rhain i bob cydran o'r cymhwyster i osgoi dyblygu asesu.

## Cwestiwn Ymgynghori 8

**Dylai pob un o gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu'r pedwar Sgîl Cyfannol i gyd. Gallai pob sgîl gael ei bwysoli'n wahanol ar lefel cydran, ond rhaid i'r pedwar sgîl gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

## System raddio

Diagram 9: System raddio'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd

System raddio							
Graddau a ddyfarnir ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch	A*	A	B	C	D	E	U
<b>Dull cydbwysu:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Mae perfformiad cryf mewn un gydran yn gwneud iawn am berfformiad gwannach mewn un arall pan ddyfarnir gradd y cymhwyster cyffredinol.</li><li>Ni fydd gofyn i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran ar yr amod bod eu perfformiad cyffredinol yn bodloni gofynion lleiaf y cymhwyster.</li></ul>							
<b>Caniateir ailsefyll pob cydran unwaith. Bydd y radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster.</b>							

### Cynnig 9: Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd barhau i gael ei graddio A\*-E.

- 2.9.1. Mae'r THS Uwch gyffredol yn destun graddau A\* i E. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y caiff cymwysterau Safon Uwch eu graddio ac mae'n helpu i gyfleu manwl gywirdeb a gwerth y cymhwyster. Cynigiwn y dylai'r THS Uwch newydd barhau i gael ei graddio A\* i E. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw effaith ar y ffordd y caiff pwyntiau UCAS eu priodoli i'r cymhwyster.
- 2.9.2. Rydym hefyd wedi ystyried opsiynau graddio amgen. Er enghraifft, buom yn ystyried disodli'r system raddio A\* - E â llwyddiant, teilyngdod, rhagoriaeth ar lefel cymhwyster. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth o ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, mae'n llawer gwell ganddynt gadw'r system A\*- E.

## Cwestiwn Ymgynghori 9

### Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd barhau i gael ei graddio A\*-E.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

### **Cynnig 10: Dylai dysgwyr allu cyflawni gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.**

2.10.1. Cynigiwn y dylai'r cymhwyster newydd gefnu ar y dull cymhwysedd a ddefnyddir ar hyn o bryd o blaid dull cydadferol. Gyda dull cymhwysedd, mae'n rhaid i ddysgwr lwyddo ym mhob cydran (ar lefel benodol leiaf o gyrhaeddiad) er mwyn llwyddo yn y cymhwyster cyffredinol. Gyda dull cydadferol, nid oes rhaid i ddysgwr lwyddo ym mhob cydran, oherwydd gall cyflawni llawer mewn un gydran wneud iawn am gyflawni llai mewn cydran arall pan gaiff graddau eu dyfarnu ar lefel cymhwyster. Defnyddir y model hwn yn gyffredin gyda chymwysterau TGAU a Safon Uwch.

2.10.2. Bydd pob un o'r cydrannau yn y cymhwyster newydd yn orfodol, yn yr un modd â'r cymhwyster cyfredol. Fodd bynnag, oherwydd bydd pob un o'r Sgiliau Cyfannol yn cael ei asesu ym mhob cydran, a bydd felly cyfle i ddysgwyr arddangos cymhwyso'r pedwar sgil i gyd fwy nag unwaith, cynigiwn nad oes angen i ddysgwyr orfod llwyddo ym mhob cydran er mwyn gallu sicrhau gradd ar gyfer y THS Uwch yn ei chyfanrwydd. Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nodi'r farn fod hyn yn decach i ddysgwyr.

2.10.3. Awgryma rhanddeiliaid hefyd fod y ffaith bod rhaid i ddysgwyr lwyddo ym mhob cydran er mwyn cyflawni'r THS Uwch yn cymhlethu'r system raddio fwyfwy. Mae'r dull a gynigiwn yn helpu i symleiddio'r cyfathrebu.

2.10.4. Cynigiwn y dylai'r hawl fod gan ddysgwyr i ailsefyll pob cydran unwaith. Bydd y radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster, fel yn y model cyfredol.

### Cwestiwn Ymgynghori 10

**Dylai dysgwyr allu cyflawni gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai dysgwyr barhau i fod â'r hawl i ailsefyll pob cydran unwaith a dylai'r radd uchaf a gyflawnwyd ar gyfer y gydran honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.**

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr

B) Eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

### 3. Rhagolwg / gwneud penderfyniadau yn y dyfodol

3.1.1. Fel yr eglurwyd yn Adran 2, os cytunir ar ein cynnig i derfynu fframwaith Bagloriaeth Cymru, ac os daw'r THS Uwch yn gymhwyster annibynnol, mae'n debygol y bydd angen newid teitl y cymhwyster er mwyn nodi'r newid hwn.

3.1.2. I'n helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol, hoffem ichi fynegi beth ddylai teitl y cymhwyster diwygiedig fod, yn eich barn chi.

3.1.3. Wrth geisio barn, mae'n bwysig nodi bod gofynion penodol wedi'u gosod yn Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru mewn perthynas â theitlau cymwysterau a bydd angen cynnwys y rhain (er enghraifft, rhaid i'r cymhwyster newydd gynnwys Lefel 3 yn ei deitl).

- 3.1.4. Mae hefyd yn bwysig egluro, am nad ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i benderfynu ar y mater hwn, mai bwriad y cwestiwn hwn yw ceisio barn yn unig am wneud penderfyniadau yn y dyfodol ac nad yw'n gynnig sy'n rhan o'r ymgynghoriad ei hun.

**I'n helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol, rhannwch eich barn ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn nheithl y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd.**

## 4. Asesiad Effaith Integredig

### Cyflwyniad

- 4.1. Yn yr adran hon, gosodir yr Asesiad Effaith Integredig o'r cynigion a amlinellir gennym yn yr ymgynghoriad hwn. Mae tair rhan i'r adran hon, ac mae'n cynnwys crynodeb o'n Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'n Hasesiad Effaith ar y Gymraeg.
- 4.2. Asesiad yw Asesiad Effaith Integredig o effeithiau tebygol gweithgarwch rheoleiddio. Rhaid inni gyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, wedi'i dargedu ac yn gyson, a hynny gan ystyried polisi'r llywodraeth fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.
- 4.3. Drwy ein Hasesiad Effaith Integredig, arddangoswn ein bod yn rheoleiddio yn unol â'n prif nodau, a'r wyth mater y mae'n rhaid inni eu hystyried, fel yr amlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015),<sup>11</sup> ac yn unol ag egwyddorion gwell rheoleiddio<sup>12</sup> a chanllawiau Trysorlys EM.
- 4.4. Dim ond y cynigion sy'n cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon sy'n cael sylw yn yr asesiad effaith hwn. Rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion i:

---

<sup>11</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/contents/enacted>

<sup>12</sup>

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/735587/bette-r-regulation-framework-guidance-2018.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/735587/bette-r-regulation-framework-guidance-2018.pdf)

- Derfynu fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru Uwch, gan ganiatáu ffocws ar y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch fel cymhwyster annibynnol
- Datblygu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd

4.5. Hoffem eich adborth am ein hasesiad effaith ac rydym wedi cynnwys cwestiynau ymgynghori i gasglu eich barn mewn modd strwythuredig. Hoffem wybod yn arbennig:

- (i) a oes unrhyw effeithiau perthnasol nad ydym wedi'u nodi; ac
- (ii) ar gyfer y rheini a nodwyd gennym, a ydych chi'n credu bod mwy o bethau y gallwn eu gwneud i wella'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru unrhyw rai o'r effeithiau andwyol a nodwyd gennym yn y ddogfen.

---

## Dulliau a ffynonellau

4.6. Rydym wedi ystyried llawer o ffynonellau tystiolaeth wrth gynnal yr asesiad effaith hwn. Yn y rhestr ganlynol, ceir manylion y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn y broses o benderfynu ein newidiadau arfaethedig i'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru:

- Ystod lawn o adolygiadau a dogfennau rheoleiddiol sy'n berthynol i'r THS Uwch a fframwaith cyffredinol Bagloriaeth Cymru.
- Adborth gan ystod eang o randdeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy gan gynnwys gweithgareddau yn cynnwys dysgwyr, ymarferwyr, ysgolion, colegau, cyflogwyr, Estyn, prifysgolion, Colegau Cymru, Llywodraeth Cymru, CBAC, Consortia Addysg Rhanbarthol, cyrff trydydd sector, timau Cymwysterau Cymru.
- Ymchwil a gomisiynwyd gan arbenigwyr asesu.
- Adolygiad desg o ystod o fanylebau a dogfennau eraill ar gyfer ystod eang o gymwysterau ar lefelau amrywiol, gan gynnwys manylebau Safon Uwch.
- Data ardystio a gasglwyd gan Cymwysterau Cymru i nodi maint y farchnad ac effaith bosibl ganlynol ein gwaith rheoleiddio.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.7. Er mwyn ffurfio ein cynigion, cynhaliom asesiad o effeithiau tebygol ystod o opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn i barhau gyda'r cymhwyster ar ei ffurf gyfredol a'r opsiynau a



ffafir a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif effeithiau a nodwyd gennym, yn rhai negyddol a chadarnhaol, ar gyfer ystod o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, ymarferwyr, cyrff dyfarnu, prifysgolion, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach.

- 4.8. Ar y cyfan, dengys ein hasesiad ein bod yn credu bod manteision ein dull arfaethedig yn gorbwysu'r anfanteision neu'r risgiau. Lle rydym wedi nodi anfanteision posibl, rydym hefyd wedi nodi ffyrdd o leihau'r risgiau posibl hyn. Fel y cyfryw, credwn mai'r hyn a gynigiwn yw'r llwybr cywir a'i fod yn gymesur.

### **Effaith ar ddysgwyr**

- 4.9. Mae anghenion a buddiannau dysgwyr wrth wraidd ein holl waith rheoleiddio, a hwn yw'r prif reswm dros gynnig y diwygiadau sydd wedi'u cynnwys gennym yn yr ymgynghoriad hwn.
- 4.10. Un o'n prif nodau fu mynd i'r afael â materion sy'n berthynol i lefelau o ymrwymiad dysgwyr a hydrinedd y cymhwyster i ddysgwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnig lleihau maint yr asesu, a newidiadau i osgoi dyblygu ac ailadrodd o ddysgu blaenorol, heb leihau maint na chwmpas y cymhwyster.
- 4.11. Credwn hefyd ein bod wedi gosod anghenion y dysgwyr wrth wraidd unrhyw newidiadau drwy sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Er enghraifft, mae cynllun y cymhwyster newydd yn parhau i hyrwyddo dewis ac ymreolaeth y dysgwr er mwyn i ddysgwyr lywio eu dysgu yn unol â'u diddordebau personol a'u llwybrau dilyniant. Ceir hefyd ffocws ar hyrwyddo'r hawliau sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'n ddinasyddion mwy hyderus a moesegol wybodus.
- 4.12. Cynigiwn fod y cymhwyster yn cynnwys cyd-destunau i hyrwyddo lles dysgwyr, heddiw ac yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio Nodau Llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Golyga hyn y bydd gofyn i ddysgwyr asesu eu nodau personol ar gyfer yr effeithiau y byddant yn eu cael ar eu llesiant eu hunain ac ar lesiant eraill. Mae hyn yn adlewyrchu dibenion y cwricwlwm newydd a'r nod o baratoi dysgwyr at ddyfodol llwyddiannus, gyda dilyniant addas i ddysgwyr 16-19 oed.
- 4.13. Yn sgil ein hymgysylltu â dysgwyr, dangoswyd hefyd fod ychydig o ddryswch yn parhau ymhlith dysgwyr, er gwaethaf ymdrechion penderfynol chwaraewyr allweddol i wella negeseua (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CBAC, ymarferwyr a Cymwysterau Cymru), ynghylch y berthynas rhwng fframwaith Bagloriaeth Cymru a'r THS Uwch o'i

fewn. Bydd terfynu fframwaith Bagloriaeth Cymru yn symleiddio'r negeseua, gan helpu i gyfleu perthnasedd a phwysigrwydd y cymhwyster newydd i ddysgwyr.

- 4.14. Yn anochel, mae diwygio cymwysterau'n cyflwyno elfen o risg a gwyddom y gallai rhai dysgwyr fod yn poeni am y ffordd y gallai newid effeithio ar y farn am y cymhwyster. Yn benodol, efallai fod rhai dysgwyr yn poeni am yr effaith bosibl ar bwyntiau tariff UCAS a sut bydd prifysgolion yn cynnwys y THS Uwch newydd yn y cynigion a wnânt i ymgeiswyr.
- 4.15. Rydym wedi ystyried y risg hon ac wedi ymgysylltu â phrifysgolion i lywio ein meddwl. Mae'r prifysgolion rydym wedi ymgysylltu â nhw wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â phrifysgolion i roi gwybod am unrhyw newidiadau, os a phryd y cânt eu gweithredu, i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau'n berthnasol fel porth i addysg uwch.

### **Effaith ar athrawon a chanolfannau**

- 4.16. Rydym wedi ystyried effeithiau posibl ein cynigion ar gyfer athrawon a chanolfannau. Cydnabyddwn y bydd angen amser ar ymarferwyr i ymgysylltu â'r cymhwyster newydd, a pharatoi ar ei gyfer, ac y gallai hyn olygu rhai costau (e.e. mynychu hyfforddiant os na ddarperir hwn yn rhad ac am ddim gan y corff dyfarnu) i ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, credwn y bydd canolfannau'n elwa ar arbed costau ac arbedion effeithlonrwydd yn y pen draw. Er enghraifft, bydd y cymhwyster newydd yn symlach ei ffurf, heb unrhyw waith ynghylch ffurflenni data a oedd yn ofynnol o'r blaen ar gyfer fframwaith Bagloriaeth Cymru.
- 4.17. Efallai bydd pryderon gan athrawon am ofynion y cymhwyster newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r newidiadau yn y meini prawf asesu, a fydd yn gofyn am ganllawiau clir. Mae hyn yn arebnnig o wir o ystyried yr hyder cynyddol y mae ymarferwyr sefydledig wedi'i ddangos mewn perthynas â'r cymhwyster cyfredol.
- 4.18. I gefnogi ymarferwyr gyda'r pontio i'r cymhwyster newydd, byddwn yn sicrhau bod y corff dyfarnu'n darparu digon o adnoddau a hyfforddiant. Yn ogystal â'n rheolau safonol, byddwn yn cynnal archwiliadau monitro ychwanegol i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- 4.19. Rydym hefyd yn mynnu bod y cymhwyster yn cael ei gyhoeddi tua deuddeg mis cyn cael ei ddysgu am y tro cyntaf i ganiatáu digon o amser i baratoi a gweithredu.
- 4.20. Credwn fod yr effaith gadarnhaol i ganolfannau yn gorbwyso unrhyw anfanteision. Nod y newidiadau a gynigiwn i'r THS Uwch newydd yw mynd i'r afael â phryderon a godwyd yn ein gweithgareddau ymgysylltu ag ymarferwyr. Mae'r rhain yn berthnasol i hydrinedd y cymhwyster, gan gynnwys cymhlethdodau o ran strwythur, cynnwys ac asesu'r cymhwyster.

## Effaith ar gyrff dyfarnu

- 4.21. Rydym wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion ar gorff dyfarnu sy'n cynllunio, datblygu a chyflenwi'r cymhwyster newydd.
- 4.22. Bydd angen buddsoddiad ariannol cychwynnol oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cymhwyster newydd. Bydd hefyd costau yn ystod y cyfnod gweithredu, er enghraifft i ddarparu adnoddau, hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus a ffynonellau eraill o gymorth ac arweiniad. Er hyn, erbyn yr ardystiad cyntaf yn 2025, bydd y cymhwyster presennol wedi bodoli ers deng mlynedd. Cyfiawnheir felly'r gost o ddatblygu'r cymhwyster.
- 4.23. Mae ein cynnig i derfynu fframwaith Bagloriaeth Cymru yn gwaredu'r gwaith i'w wneud i agregu data gan ystod eang o gyrff dyfarnu. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws i gorff dyfarnu gyfleu gwybodaeth am y cymhwyster i ystod ehangach o randdeiliaid.
- 4.24. Gall y lleihad yn nifer y cydrannau leihau'r gofynion am gymedroli allanol, a allai efallai arwain at ostwng costau yn y tymor hir.

## Effaith ar brifysgolion

- 4.25. Rydym wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion ar brifysgolion. Er enghraifft, rydym wedi ystyried y costau ariannol (ac amser) dan sylw o ystyried bod angen i brifysgolion gyfeirio at y cymhwyster mewn prosbectysau, gwefannau a ffynonellau eraill o wybodaeth. Bydd hyn yn benodol o berthnasol os penderfynir yn nes ymlaen fod angen newid teitl cymhwyster newydd y THS Uwch.
- 4.26. Rydym yn cydnabod bod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i hybu ymwybyddiaeth am y cymhwyster cyfredol gyda phrifysgolion a bod staff academiaidd a staff derbyn yn ymgysylltu mwyfwy â'r THS Uwch, ac i raddau llai â fframwaith Bagloriaeth Cymru.
- 4.27. Rydym wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o brifysgolion i holi barn am risgiau posibl. Oherwydd bu'r cymhwyster cyfredol ar gael ers nifer o flynyddoedd, nid yw'n anarferol gwneud newidiadau sy'n creu costau cyfathrebu. Mae hefyd yn gyffredin i brifysgolion orfod diweddarau ffynonellau cyfathrebu yn rheolaidd o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau allanol sy'n llywio eu penderfyniadau.
- 4.28. Byddwn yn parhau â gwaith gyda phrifysgolion i sicrhau bod gwybodaeth am y cymhwyster newydd yn cael ei chyfathrebu'n glir a chywir. Bydd hyn yn sicrhau bod modd o rannu gwybodaeth yn gywir am y ffordd y mae'r THS Uwch yn cael ei

chynnwys yng nghynigion prifysgolion i ymgeiswyr, gyda darpar fyfyrwyr a'u rhieni (er enghraifft, yn ystod gweithgarwch recriwtio ac ymgysylltu prifysgolion).

- 4.29. Credwn y bydd y buddion cyffredinol i brifysgolion yn gorbwysu unrhyw anfanteision a nodwyd. Er enghraifft, bydd negeseuon am y cymhwyster yn cael eu symleiddio a fydd yn helpu staff academiaidd a staff derbyn gyda'u prosesau ymgeisio a derbyn.

### **Effaith ar randdeiliaid ehangach**

- 4.30. Rydym wedi ystyried effeithiau posibl ein cynigion ar randdeiliaid ehangach gan gynnwys cyflogwyr, y trydydd sector a rhieni a gofalwyr.
- 4.31. I lywio ein meddwl, rydym wedi ymgysylltu ag ystod o gyflogwyr o wahanol sectorau ledled Cymru i sicrhau bod y sgiliau y cynigiwn eu blaenoriaethu yn y cymhwyster newydd yn diwallu eu hanghenion am weithlu effeithiol.
- 4.32. Mae cynllun y cymhwyster yn annog cyfraniad gan gyflogwyr i sicrhau bod y ffocws ar sgiliau yn adlewyrchu gwybodaeth ac arfer gorau cyfredol, ynghyd ag anghenion gweithluoedd sy'n newid.
- 4.33. Yn ogystal â chyflogwyr, rydym wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r trydydd sector i sicrhau bod y cymhwyster newydd hefyd yn diwallu anghenion yr ystod ehangach o gymdeithasau a sefydliadau sy'n cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas. Yn benodol, mae ein cynigion yn canolbwyntio ar gyrchfannau dysgwyr yn y dyfodol, yn hytrach na chyflogaeth yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu'r bwriad i annog dysgwyr i archwilio nodau ac uchelgeisiau'r dyfodol yn fwy eang, er enghraifft drwy ystyried cwmnïau cydweithredol a'r sectorau gwirfoddol ac elusennol.
- 4.34. Bydd cynllun y cymhwyster newydd yn parhau i hyrwyddo cyfraniad gan ystod eang o ddarparwyr allanol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng cyflogaeth, dysgu gydol oes, a dinasyddiaeth weithgar.
- 4.35. Credwn y bydd ein newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar rhieni a gofalwyr o ystyried y potensial i symleiddio negeseua ac felly cyfleu'n well ddiben y cymhwyster fel porth i addysg uwch a chyflogaeth. Gallai gwell dealltwriaeth arwain o bosibl at rhieni'n teimlo'n fwy hyderus am y ffordd y mae'r cymhwyster yn paratoi pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol.
- 4.36. Rydym yn cydnabod bod angen cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am y cymhwyster newydd (e.e. cyrff dyfarnu, Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru) i sicrhau bod gwybodaeth a ledaenir i randdeiliaid ehangach yn gyson ac yn gywir.

## Effaith ar Lywodraeth Cymru

- 4.37. Rydym wedi trafod ein cynigion gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith bosibl ar bolisi Llywodraeth Cymru.
- 4.38. Os byddwn yn mabwysiadu'r cynigion, bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu, ac efallai diweddar, y trefniadau atebolrwydd (gan gynnwys mesurau perfformiad) ar gyfer ysgolion, colegau chweched dosbarth a cholegau.
- 4.39. Byddai angen hefyd i Lywodraeth Cymru adolygu dogfennau arweiniad a pholisi lle cyfeirir at fframwaith Bagloriaeth Cymru, er enghraifft canllawiau ar drefniadau cyllid a mabwysiadu cyffredinol. Byddai'r rhain yn effeithiau untro ac ni fyddent yn barhaus.
- 4.40. Gallai ein cynigion gael effeithiau cadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r cymhwyster newydd yn cydreddeg yn dda â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, gan sicrhau parhad a dilyniant i ddysgwyr sy'n symud i mewn i addysg ôl-16.
- 4.41. Drwy adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster cyfredol a mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan randdeiliaid, bydd y cymhwyster newydd yn helpu i wella enw da a gwerth blaenoriaethau addysgol yng Nghymru, gan gynnwys yr agenda sgiliau.
- 4.42. Drwy leihau cymhlethdod ei gynllun, bydd ein cynigion yn ei gwneud yn symlach disgrifio'r cymhwyster newydd, gan leihau'r risgiau'n ymwneud â chamgyfleu a chryfhau gwerth cyflawniadau pobl ifanc. Yn y tymor hwy, bydd hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cymhwyster a'i werth i brifysgolion, cyflogwyr ac eraill.

## Cwestiwn ymgynghori:

**Yn yr adran hon, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddio a ragwelwn o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.**

**Defnyddiwch y gofod isod i roi unrhyw adborth ar ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn eich ymateb, efallai yr hoffech chi ystyried:**

- 1. A oes rhagor o bethau y gallwn eu gwneud i wella'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru unrhyw rai o'r effeithiau andwyol, a nodwyd gennym yn y ddogfen hon.**
- 2. A oes unrhyw effeithiau eraill (cadarnhaol neu negyddol) nad ydym wedi'u nodi yn ein hasesiad effaith.**

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 4.43. Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yw nodi a ydy'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) neu effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a nodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010).
- 4.44. Rydym wedi ystyried effaith bosibl y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf.
- 4.45. Rydym wedi ystyried yr angen i sicrhau bod dysgwyr o wahanol gefndiroedd daearyddol yn cael yr un cyfleoedd i elwa ar y cyfraniad allanol y gall cyflogwyr a'r trydydd sector ei gynnig ac nad yw'r ffocws ar weithgarwch cymunedol a pharatoi ar gyfer cyflogaeth y dyfodol yn rhoi dysgwyr o wahanol ardaloedd daearyddol o dan anfantais (er enghraifft, y rheini sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig).
- 4.46. Rydym hefyd wedi ystyried anghenion dysgwyr o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, er gwaethaf y ffocws ar ddatblygu annibyniaeth a hyrwyddo ymreolaeth dysgwyr, mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gymorth ac arweiniad tiwtor, gan sicrhau nad yw dysgwyr o wahanol gefndiroedd o dan anfantais wrth gael at eu dysgu.
- 4.47. Wrth ddatblygu'r model arfaethedig, rydym wedi cadw'r ffocws ar ddinasyddiaeth weithgar fel cyd-destun i ddysgwyr ymrwymo'n feiriadol i faterion byd-eang cymhleth, gan gynnwys materion o arwyddocâd economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Rydym hefyd wedi cadw ffocws ar gyfranogiad yn y gymuned leol. Mae hyn yn annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o anghenion nodedig gwahanol grwpiau cymdeithasol a diwylliannol a golyga fod gan y cymhwyster y potensial i greu dinasyddion mwy goddefgar a gwybodus sy'n gallu cyfrannu at Gymru fwy cydynol (yn unol â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
- 4.48. Credwn y bydd ein cynigion ar gyfer cynllun y cymhwyster yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ar sail eu hoedran. Er enghraifft, mae cynllun y cymhwyster yn cefnogi pobl ifanc drwy hyrwyddo hawliau'r plentyn a geir yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn benodol, mae'r ffocws ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU a Nodau Llesiant Cymru yn cefnogi Erthygl 12 o Gonfensiwn y CU sy'n nodi bod gan bobl ifanc yr hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd y cymhwyster newydd yn annog dysgwyr i fod yn fwy gwybodus am y cyfrifoldebau sydd gan y rhai sydd mewn grym i fodloni anghenion llesiant, a fydd yn galluogi pobl ifanc i arfer yr hawl hon yn well.
- 4.49. Mae'r cymhwyster hefyd wedi'i gynllunio i hyrwyddo dewis ac ymreolaeth y dysgwr wrth siapio ei ddysgu yn unol â'i nodau yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud y cymhwyster yn hygyrch i bob dysgwr ni waeth pa lwybr dysgu a ddewisodd. Mae'r

pwyslais ar ddatblygu sgiliau sydd yn berthnasol i anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Anogir dysgwyr i asesu eu nodau a'u huchelgeisiau at y dyfodol ar gyfer y gwerth ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y gallant ei greu iddynt eu hunain ac eraill, gan fagu eu hyder efallai i gyfrannu at fyd a Chymru gynaliadwy.

- 4.50. Credwn y bydd ein cynigion ar gyfer cynllun y cymhwyster yn cael effaith gadarnhaol ar bob dysgwr. Yn y cyfnod hwn, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

### **Rydym wedi nodi effeithiau cadarnhaol posibl ynghylch hyrwyddo Cymru fwy cyfartal a chydlynol drwy ein cymhwyster THS Uwch diwygiedig.**

**Defnyddiwch y gofod isod i roi adborth ar ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn eich ymateb, efallai yr hoffech ystyried:**

- 1. A oes rhagor o bethau y gallwn eu gwneud i wella'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd gennym yn ein hasesiad effaith.**
- 2. A oes unrhyw effeithiau eraill (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar bobl sydd â nodweddion a warchodir o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb nad ydym wedi eu nodi yn ein hasesiad effaith.**

### **Asesiad Effaith ar y Gymraeg**

- 4.51. A ninnau'n sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi ymrwmo i'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiau ein cynigion ar siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ac addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd yn ceisio cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae gennym gynllun Cymraeg ac rydym yn gweithio tuag at y safonau Cymraeg newydd. Mae gennym hefyd ein strategaeth 'Dewis i Bawb', sy'n nodi'n glir ein huchelgais i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- 4.52. Bydd y newidiadau a gynigiwn i'r THS Uwch yn cadw'r un cyfleoedd â'r cymhwyster presennol i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster drwy iaith eu dewis (Cymraeg / Saesneg). Bydd gofyn i gorff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster hwn sicrhau ei fod a) yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) yn trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.
- 4.53. Yn ogystal, bydd y newidiadau a gynigiwn i'r cymhwyster newydd efallai'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg ac yn cynyddu hygyrchedd yr iaith i

ddysgwyr. Yn benodol, mae'r ffocws ar nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod dysgwyr yn cael llwyfan i gael at ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn ddwyieithog. Bydd dysgwyr hefyd yn cael y cyfle i ddysgu am flaenoriaeth genedlaethol hyrwyddo Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, yn unol â'r nod hwn yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Yn yr adran hon, rydym wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg.**

**Defnyddiwch y gofod isod i roi adborth am ein Hasesiad Effaith ar y Gymraeg. Yn eich ymateb, efallai yr hoffech ystyried:**

- 1. A oes rhagor o bethau y gallwn eu gwneud i wella'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd gennym yn ein hasesiad effaith.**
- 2. A oes unrhyw effeithiau eraill (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y Gymraeg nad ydym wedi'u nodi yn ein hasesiad effaith.**
- 3. A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallwn eu cymryd i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ymhellach.**

## **5. Y camau nesaf**

- 5.1. Anogwn ymatebwyr i gyfrannu eu barn am yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y rheini yn adran yr Asesiad Effaith Integredig. Mae'n bwysig bod ein cynigion yn gwireddu'r effeithiau cadarnhaol y dymunwn eu gweld a lleihau unrhyw effeithiau negyddol gymaint â phosibl.
- 5.2. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gawn, ochr yn ochr â sylwadau yn amlinellu ein penderfyniadau a'r rhesymau amdanynt, yng ngwanwyn 2021.